# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDO DROS DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH

**13 EBRILL 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd P. Hughes-Griffiths (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. Lawday, Swyddog Mynediad Cefn Gwlad
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10:00yb - 10.40yb**

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. LLWYBR TROED CYHOEDDUS 10/1, THE PLASH INN, LLANFALLTEG

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar gais am wyro Llwybr Troed Cyhoeddus Cofrestredig 10/1 o dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980, er budd perchennog y tir.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y dylai'r paragraff yn yr adran 'Argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen' ar glawr yr adroddiad ddarllen fel a ganlyn: 'Cymeradwyaeth gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i wneud y Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus angenrheidiol.'

Roedd y Swyddog Mynediad Cefn Gwlad wedi dod i'r casgliad fod y cais yn bodloni'r meini prawf a bennwyd yn y Ddeddf uchod, sef ei bod yn hwylus fod cwrs y llwybr neu ran o'r llwybr yn cael ei wyro er budd naill ai perchennog, daliwr prydles, neu feddiannwr y tir a groesir gan y llwybr neu er budd y cyhoedd, ac nad oedd y gwyriad arfaethedig llawer yn llai cyfleus i'r cyhoedd, nac ychwaith yn effeithio'n andwyol ar fwynhad y cyhoedd o'r llwybr yn ei gyfanrwydd.

Eglurodd y Swyddog Mynediad Cefn Gwlad y cais a thynnodd sylw yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at y cynnig i ddargyfeirio llwybr, fel y manylir yn y map sydd wedi'i atodi i'r adroddiad.

Esboniodd y Swyddog Mynediad Cefn Gwlad fod y Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad anstatudol cyn y gorchymyn ag ymgyngoreion statudol a phartïon sydd â buddiant mewn ymgais i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a/neu ymholiadau a godwyd o blaid neu yn erbyn y cynnig. Yn ogystal, er mwyn cydymffurfio â gwyro hawliau tramwy cyhoeddus a gynhaliwyd dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980, byddai'r Awdurdod, petai'r gorchymyn yn cael ei gymeradwyo, yn cychwyn ar ymgynghoriad cyhoeddus statudol ffurfiol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais am wyro Llwybr Troed Cyhoeddus Cofrestredig 10/1, y Plash Inn, Llanfallteg, a gwneud y Gorchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus priodol yn unol ag adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1.**

## 3. LLWYBR TROED CYHOEDDUS 14/6, DOLCOED, LLANLLWNI

Bu'r Aelod o'r Bwrd85737ithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar gais am wyro Llwybr Troed Cyhoeddus Cofrestredig 14/6 o dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980, er budd perchennog y tir.

Nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y dylai'r paragraff yn yr adran 'Argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen' ar glawr yr adroddiad ddarllen fel a ganlyn: 'Cymeradwyaeth gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i wneud y Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus angenrheidiol.'

Roedd y Swyddog Mynediad Cefn Gwlad wedi dod i'r casgliad fod y cais yn bodloni'r meini prawf a bennwyd yn y Ddeddf uchod, sef ei bod yn hwylus fod cwrs y llwybr neu ran o'r llwybr yn cael ei wyro er budd naill ai perchennog, daliwr prydles, neu feddiannwr y tir a groesir gan y llwybr neu er budd y cyhoedd, ac nad oedd y gwyriad arfaethedig llawer yn llai cyfleus i'r cyhoedd, nac ychwaith yn effeithio'n andwyol ar fwynhad y cyhoedd o'r llwybr yn ei gyfanrwydd.

Eglurodd y Swyddog Mynediad Cefn Gwlad y cais a thynnodd sylw yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at y cynnig i ddargyfeirio llwybr, fel y manylir yn y map sydd wedi'i atodi i'r adroddiad.

Esboniodd y Swyddog Mynediad Cefn Gwlad fod y Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad anstatudol cyn y gorchymyn ag ymgyngoreion statudol a phartïon sydd â buddiant mewn ymgais i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a/neu ymholiadau a godwyd o blaid neu yn erbyn y cynnig. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, nododd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod yr ymgeisydd yn bwriadu rhoi mesurau ar waith er mwyn datrys rhai o'r problemau ynghylch preifatrwydd personol a godwyd gan wrthwynebwyr.

Yn ogystal, er mwyn cydymffurfio â gwyro hawliau tramwy cyhoeddus a gynhaliwyd dan Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980, byddai'r Awdurdod, petai'r gorchymyn yn cael ei gymeradwyo, yn cychwyn ar ymgynghoriad cyhoeddus statudol ffurfiol.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais am wyro Llwybr Troed Cyhoeddus Cofrestredig 14/6, Dolcoed, Llanllwni, a gwneud y Gorchymyn Gwyro Llwybr Cyhoeddus priodol yn unol ag adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980.**

4. **CYMERADWYO A LLOFNODI HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR:**

**4a. 22AIN MAWRTH 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 22 Mawrth 2018, gan ei fod yn gywir.**

**4b. 28AIN MAWRTH 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnod penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2018, gan ei fod yn gywir.**

________________________________ ____________________

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**